# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SAFONAU | | STANDARDS COMMITTEE |
| DYDD GWENER,<br>19 RHAGFYR 2014 am 9.30 o'r gloch | | FRIDAY,<br>19 DECEMBER, 2014 at 9.30 a.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1,<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1,<br>COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Mrs. Mairwen Hughes<br>(01248) 752515 | Committee Officer |

**<u>Aelodau Annibynnol / Independent Members</u>**

Mrs. Denise Harris Edwards
Mr. Islwyn Jones **(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**
Mr. Leslie Lord
Mrs. Dilys Shaw
Mr. Michael Wilson **(Cadeirydd/Chair)**

**<u>Yn cynrychioli’r Cyngor Sir / Representing the County Council</u>**

Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes
Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, y cofnodion cyhoeddus a gafwyd ar 11 Medi, 2014.
**(PAPUR 'A')**

3 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 5 - 8)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol :-
"O dan Adran 100(A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'I diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'rPrawf Budd y Cyhoedd sydd ynglwm."
**(PAPUR 'B')**

4 **ADRODDIAD** (Tudalennau 9 - 64)

Y Pwyllgor Safonau i dderbyn ac ystyried adroddiad gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Cymru mewn perthynas â honiadau bod Cynghorydd Sir wedi torri'r côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau.
**(PAPUR 'C')**

# PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Medi 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol**<br><br>Mr Michael Wilson (Cadeirydd)<br>Mr Islwyn Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Mrs Denise Harris Edwards<br>Mr Leslie Lord<br>Mrs Dilys Shaw<br><br>**Yn Cynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned**<br><br>Y Cynghorwyr William Raymond Evans a John Roberts (Dim yn bresennol ar gyfer eitem 4) |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro(LB)<br>Cyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol)(AW)<br>Swyddog Cyfathrebu (GJ)(Ar gyfer Eitem 4)<br>Swyddog Pwyllgor(SC) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd XXXX |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Trefor Lloyd Hughes a Dafydd Rhys Thomas |

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Eitem 4 - Gwnaed datganiad o ddiddordeb gan y Swyddog Monitro oherwydd honiad a wnaed gan y Cynghorydd xxx am un o'i Gwasanaethau.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2014 fel rhai cywir.

***YN CODI O'R COFNODION***

Cyfeiriodd yr Is-Gadeirydd at fersiwn Gymraeg y rhaglen ac at gyfieithu dogfennau i'r Gymraeg. Nododd nad oedd y dyfyniadau yn cael eu cyfieithu a bod y dogfennau hyn yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Gofynnodd a fyddai modd ymchwilio i hyn.

**Gweithredu: Cyfeirio'r mater i'r Adain Gyfieithu**



DRAFT

Eitem 3 – Fforwm y Pwyllgor Safonau

Cafwyd diweddariad ar Eitem 3 gan y Cadeirydd - cael disgrifiad swydd ar gyfer Clercod Cynghorau Tref a Chymuned ac anfon copi i'r Cadeirydd.

Dywedodd y Cadeirydd fod y Gyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol) wedi anfon dogfen o'r enw 'Canllawiau Hanfodol i Glercod' gan Un Llais Cymru i Gynghorau Tref a Chymuned. Mae disgwyliadau hefyd wedi eu nodi yng Nghanllawiau'r Ombwdsmon ar y Côd.

Mewn ymateb casglwyd nad oedd yna ddisgrifiad swydd cyffredinol ac mai cyfrifoldeb y Cynghorau Tref a Chymuned oedd cytuno ar eu disgwyliadau gyda'u Clercod.

**Gweithredu: Bydd y Swyddog Monitro yn trafod y mater gyda'r Clercod yn yr hyfforddiant a gynhelir yn o fuan.**

**Eitem 4** – Datgan diddordeb mewn Cyfarfodydd a'r Gofrestr o Roddion a Lletygarwch

Gofynnodd Mrs Shaw i'r Cadeirydd am ddiweddariad ynghylch cyllido'r feddalwedd. Ymatebodd y Cadeirydd trwy ddweud ei fod wedi bod mewn cyfarfod gyda'r Arweinwyr Grwpiau a chytunwyd i gefnogi menter y Pwyllgor Safonau.

Dywedodd y Swyddog Monitro ei fod wedi ei gytuno mewn egwyddor, a bod rhaid cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith i ddyrannu arian o gronfa wrth gefn yr Arweinyddion Grwpiau. Roedd y Pwyllgor Gwaith wedi gofyn i'r Pwyllgor Safonau gysylltu gyda Chymdeithas Lywodraeth Leol Cymru i weld a oes cyllid ar gael. Cafwyd ymateb gan y Gymdeithas yn dweud nad oedd modd iddi ddarparu cyllid. Dywedodd y Swyddog Monitro ymhellach mai'r rheswm am wrthod cyllido oedd y berthynas fasnachol a chontractyddol rhwng y Cyngor a datblygwr y feddalwedd. Byddai'r Gyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol) yn cysylltu â CLlLC eto i weld a fyddai'n ailystyried.

Dywedodd y Swyddog Monitro fod yr adroddiad wedi ei baratoi a'i gymeradwyo'n ffurfiol ond nad oedd hi am fynd â'r mater yn ei flaen hyd oni fydd CLlLC wedi rhoi ateb terfynol neu oni fyddai Cynghorau eraill yn gallu darparu cyllid.

**Gweithredu:**

- **Y Gyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol) i ysgrifennu'n ôl at CLlLC yn dilyn trafodaeth gyda Rheolydd Gwe'r Cyngor a darparu diweddariad pellach.**
- **Disgwyl am ymateb terfynol gan CLlLC neu Gynghorau eraill cyn symud ymlaen.**
- **Yna, mofyn penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith.**

**Eitem 9** – Hyfforddiant ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor a Chynghorau Tref a Chymuned

Holodd Mrs Shaw ynglŷn â'r sefyllfa mewn perthynas â hyfforddiant ar gyfer Cynghorau Cymuned.

Ymatebodd y Swyddog Monitro trwy ddweud bod y dyddiadau wedi eu pennu a bod gwahoddiadau wedi eu hanfon ond ni chafwyd ymateb da iawn.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyfarfod ymgysylltu.  Yr ymateb gan Glercod y Cynghorau Tref a Chymuned oedd nad oeddent yn credu mai eu cyfrifoldeb nhw oedd rhoi cyngor ar y Côd Ymddygiad.   Roedd y Cadeirydd wedi bod mewn cyfarfod arall lle awgrymodd Cyngor Tref a Chymuned Caergybi y gallai'r clercod ddod ynghyd fel grŵp  ar gyfer sesiwn hyfforddi.  Nid oedd gan y mwyafrif o'r Clercod lawer o frwdfrydedd mewn perthynas â'r hyfforddiant.

Awgrymodd y Swyddog Monitro bod y Pwyllgor Safonau yn dal ati gyda'r hyfforddiant fel y cynlluniwyd. Ystyriwyd y byddai o fudd adeiladu ymhellach ar y  berthynas.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**Gweithredu:  Cysylltu gyda Chlercod Cynghorau Tref a Chymuned i'w hatgoffa o'r hyfforddiant sy'n cael ei gynnig.**

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**Penderfynwyd mabwysiadu'r isod:**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, anfon y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem isod oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".**

**4 ADRODDIAD GAN YR OMBWDSMON**

Cyflwynwyd - Adroddiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)  yn ymchwilio i gŵyn ynghylch achosion honedig o dorri'r Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau gan Gynghorydd Sir.

**PENDERFYNWYD cynnal gwrandawiad ar ddyddiad ac amser i'w pennu.**

*Ymunodd y Cynghorwyr John Roberts a W R Evans â'r cyfarfod ar ôl y drafodaeth ar yr eitem hon.*

**5 Y GOFRESTR O RODDION A LLETYGARWCH A NODIADAU BRIFFIO**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Gyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol) yn amlinellu'r cysyniad o gyhoeddi nodiadau briffio achlysurol ar gyfer Aelodau ar faterion penodol y mae aelodau yn gofyn cyngor arnynt yn aml.

Cafwyd diweddariad gan y Gyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol) ar rôl yr Adain Gyfreithiol yn darparu gwybodaeth ac arweiniad i Aelodau ynghylch unrhyw gwestiynau a fo ganddynt neu i sicrhau eu bod yn cael eu diweddaru ynghylch unrhyw newidiadau perthnasol yn y gyfraith.  Dywedodd y Gyfreithwraig fod yr Adain Gyfreithiol wedi cwblhau 4 o nodiadau briffio yn y 6 mis diwethaf.



DRAFT

Bwriedir cyhoeddi nodyn briffio newydd ar Roddion a Lletygarwch, yn dilyn adolygiad a wnaed gan y Pwyllgor hwn yn gynharach eleni. Nodwyd nad oedd llawer o Aelodau yn cofnodi rhoddion a lletygarwch. Esboniodd y Gyfreithwraig fod yr Adain Gyfreithiol wedi gosod allan y cwestiynau y mae'r Aelodau yn eu gofyn yn aml gydag awgrymiadau o ran atebion.

Awgrymodd yr Is-Gadeirydd y byddai'n dymuno bod derbyn tocynnau a mynediad am ddim yn cael eu hychwanegu at y ffurflen.

Awgrymwyd cynnal sessiynau briffio cyn cyfarfodydd y Cyngor oherwydd y gallai ddenu presenoldeb uwch.

Nid oedd y Swyddog Monitro yn ystyried y byddai'n ddoeth cynnal sesiynau hyfforddi cyn cyfarfodydd oherwydd y baich gwaith sydd eisoes gan yr Aelodau. Awgrymwyd y gellid sôn eto am y nodiadau briffio yn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 6 CWYNION YNGHYLCH YMDDYGIAD A WNAED I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

6A Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Gyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol) ar ffurf matrics wedi ei ddiweddaru ar gyfer Cynghorwyr Sir.

Mynegodd y Cynghorydd John Roberts bryder fod dau o'r cwynion wedi cymryd amser maith i ddod gerbron y Pwyllgor.

Dywedodd y Swyddog Monitro mai targed yr Ombwdsmon oedd cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Safonau cyn pen cyfnod o flwyddyn, a bod y mater hwn wedi ei godi hefyd yn y Fforwm Pwyllgor Safonau.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth a chodi'r mater eto pan fydd Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru yn cyfarfod â'r Ombwdsmon ym mis Tachwedd.**

6B Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Gyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol) ar ffurf matrics wedi ei ddiweddaru ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at Adolygiadau Datblygiad Personol a gofynnodd i Aelodau'r Pwyllgor gwblhau adolygiad. Dywedodd y bydd fersiwn Gymraeg ar gael hefyd. Esboniodd hefyd ei fod wedi neilltuo slotiau o hanner awr ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Safonau ac y byddai'n adrodd yn ôl gyda chynllun hyfforddi drafft ar gyfer y Pwyllgor yn ei gyfanrwydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 4:00pm

**MR MICHAEL WILSON**
**CADEIRYDD**



DRAFT

# ATODIAD / ENCLOSURE B

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

**Ystyried cwyn yn erbyn Aelod yn dilyn ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

**To consider a complaint against a Member following investigation by the Public Services Ombudsman for Wales**

| Paragraff(au) *Paragraph(s)* 12, 13, 18A | Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 *Schedule 12A Local Government Act 1972* |
|---|---|
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / *There is a public interest in disclosure as:-* | Y budd i'r cyhoedd with beidio datgelu yw / *The public interest in not disclosing is:-* |
| Gwrandawiad rhagarweiniol yw hwn i ganfyddiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru y gall Aelod fod wedi torri'r Côd Ymddygiad.<br><br>Pwrpas y Côd yw annog safonau ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus, fel y cânt eu disgrifio yn Côd, a'u gorfodi pan fo raid. Mae hwn yn fater o diddordeb cyhoeddus oherwydd mae cydymffurfio gyda'r Côd â rôl sicrwydd bwysig o ran yr hyn y mae Cynghorwyr yn ei wneud pan yn cynrychioli ddiddordeb cyhoeddus. Yn gryno, mae'r ffaith fod y Côd yn bodoli o gwbl er budd y cyhoedd i raddau helaeth.<br><br>*This is a preliminary hearing into a finding by the Public Services Ombudsman for Wales (PSOW) that a Member may have breached the Code of Conduct.*<br><br>*The purpose of the Code is to encourage the standards of conduct in public life, as described in the Code, and, when necessary, to enforce them. This is a public interest issue as compliance with the Code plays an important assurance role for the actions of Members when representing the public interest. In short, the fact that the Code exists at all is largely for the benefit of the public* | Mae paragraff 18A o atodlen 12A yn cyfeirio at "information which is subject to any obligations of confidentiality".<br><br>Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi rhoi'r cyfarwyddyd isod i'r Cyngor:-<br><br>"Prior to any hearing the Ombudsman asks the recipient of the Report to treat it as confidential in advance of the hearing".<br><br>O'r herwydd, mae OGCC wedi mynnu bod ei Adroddiad yn cael ei gadw'n gyfrinachol sy'n creu disgwyliad y bydd y Cyngor yn parchu cyfrinachedd.<br><br>Byddai datgelu'r Adroddiad, a thrafod ei gynnwys mewn cyfarfod, bellach yn torri disgwyliadau pendant OGCC o ran cyfrinachedd a gallai olygu bod y Cyngor yn agored i her gyfreithiol neu gŵyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Er gwaethaf teilyngdod her o'r fath, gallai ddwyn y Cyngor i mewn i anghydfodau dianghenraid sy'n gwastraffu adnoddau cyhoeddus.<br><br>Wedi mynnu ar ymrwymiad o ran cyfrinachedd "cyffredinol", dylai fod yn fater i OGCC gyfiawnhau ei safiad pe ceid her oherwydd y penderfyniad i beidio datgelu oherwydd nid yw'r Cyngor yn gwybod beth yw ei resymau neu ei gyfiawnhad.<br><br>Ymhellach, mae adroddiad yr Ombwdsmon yn datgelu hunaniaeth unigolyn ac fe allai hyn achosi poendod neu niwed i'r unigolyn. Ni |

| | |
|---|---|
| | fuasai yn helpu i ddileu enw'r unigolyn gan y byddai'n parhau i fod yn bosibl i adnabod yr unigolyn o weddill y wybodaeth sydd o fewn yr adroddiad.<br><br>*Paragraph 18A of Schedule 12A relates to "information which is subject to any obligations of confidentiality".*<br><br>*The PSOW has instructed the Council that:-*<br><br>*"Prior to any hearing the Ombudsman asks the recipient of the Report to treat it as confidential in advance of the hearing".*<br><br>*Accordingly, the PSOW has imposed a confidentiality obligation on the Report, creating an expectation of confidentiality on the part of the Council.*<br><br>*Disclosure of the Report, including discussion of its content in a public meeting, would now breach the PSOW's explicit expectation of confidentiality and might leave the Council open to legal challenge or complaint to the Information Commissioner. Regardless of the merits of such challenge this has the potential to involve the Council in needless disputes that waste public resources.*<br><br>*Having imposed a "blanket" confidentiality obligation it should be for the PSOW to justify its position in the event of challenge to non-disclosure, as the Council is not privy to its reasoning or justification.*<br><br>*Further, the Ombudsman's report discloses the identity of a third party and this disclosure could cause distress or detriment to that individual. To redact the name of the individual would not assist as it would still be possible to identify the individual from other information contained within the report.* |
| **Argymhelliad** - Wedi pwyso a mesur, mae'r budd i'r cyhoedd o ran cadw'r eithriad, yn fwy na fyddai'r budd i'r cyhoedd petai'r wybodaeth yn cael ei datgelu.<br><br>***Recommendation*** - *On balance, the public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.* | |

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank